**Y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ARD 01-03(p4)**

**Diben**

1. Ystyried cyflwyniad drafft y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig i Gomisiwn Richard. Amgaeir y cyflwyniad yn Atodiad 1.

**Y Cefndir**

2. Yn ei gyfarfod ar 27 Tachwedd, bu'r Pwyllgor yn ystyried y cyflwyniad ysgrifenedig yr oedd y Cadeirydd i'w wneud i Gomisiwn Richard. Awgrymwyd y dylai'r Pwyllgor gytuno ar gyflwyniad ar wahân a fyddai'n canolbwyntio ar bwerau yn y portffolio Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ac ar effaith aelodaeth y Gweinidog o'r Pwyllgor o ran craffu. Cytunodd Cynog Dafis i drafod â'r Clerc sail cyflwyniad y Pwyllgor, a byddai trafodaeth arno'n cael ei rhoi ar agenda'r Pwyllgor rywbryd yn y dyfodol.

**Camau i'r Pwyllgor eu Cymryd**

3. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried a chymeradwyo'r cyflwyniad drafft.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau Ionawr 2003**

**Atodiad 1**

**Comisiwn Richard**

**Cyflwyniad Drafft gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Rhagarweiniad**

1. Gwneir y cyflwyniad canlynol ar ran y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Hyderwn y bydd yn ategu'r cyflwyniad ffeithiol gan Glyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor, a fu'n disgrifio sut y mae'r Pwyllgor yn gweithredu a'i rôl o ran craffu ar y Gweinidog, ar ei bolisïau ac ar is-ddeddfwriaeth y Cynulliad.

2. Mae'r cyflwyniad hwn yn trafod yn bennaf y pwerau sydd gan y Cynulliad yn y portffolio Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig a mater mwy cyffredinol sy'n ymwneud ag aelodaeth y Gweinidog o bwyllgor pwnc.

**Gwneud y mwyaf o bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag amaethyddiaeth a datblygu gwledig**

3. I raddau helaeth, polisi, cyfraith a chyllid yr Undeb Ewropeaidd sy'n llywio'r polisi ar amaethyddiaeth a physgodfeydd. Mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn cael eu rhoi ar waith trwy Reoliadauddeddfwriaeth y Gymuned sy’n cael effaith uniongyrchol ymar bmhob un o'r Aelod-Wladwriaethau ac nid oes fawr o gyfle felly i Aelod-Wladwriaeth, neu ran ohoni, weithredu'n annibynnol. Ychydig o gyfle sydd ar gael felly i ddatblygu polisi amaethyddol sy'n neilltuol i Gymru drwy ddeddfwriaeth sylfaenol. Serch hynny, mae'r Pwyllgor o'r farn y dylid parhau i wneud y gorau o bwerau'r Cynulliad yn y portffolio hwn.

4. Efallai mai'r enghraifft unigol orau o'r manteision a fyddai'n deillio o gael mwy o bwerau deddfwriaethol yw'r ffordd yr ymdriniwyd â chlwy'r traed a'r genau yn 2001. Mae natur y diwydiant da byw heddiw yn golygu bod yn rhaid cydlynu'r camau sy'n cael eu cymryd i reoli clefyd megis Clwy'r Traed a'r Genau ar lefel y DU. Serch hynny, roedd yr achosion o'r clwyf yn dangos bod angen i'r llywodraeth weithredu mewn ffordd a oedd yn adlewyrchu'r amgylchiadau rhanbarthol a lleol. Roedd y nodweddion ffisegol sy'n neilltuol i Gymru, strwythur a phatrymau ei diwydiant amaethyddol, a

bodolaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn golygu y gellid bod wedi teilwra'r polisi ac wedi gwneud penderfyniadau'n gyflymach, mewn sawl maes allweddol, pe byddai mwy o gyfrifoldeb deddfwriaethol gan y Cynulliad. Byddai datganoli pwerau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid hefyd wedi helpu'r cyhoedd i ddeall atebolrwydd y llywodraeth yng Nghymru ac wedi rhoi cyfle iddi wneud penderfyniadau mewn ffordd gliriach a mwy effeithlon.

5. Yn ogystal â'r pwerau sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid, byddai cael pwerau deddfwriaethol ychwanegol i wneud deddfwriaeth sylfaenolyn golygu y gellid datblygu polisi sy'n neilltuol i Gymru mewn meysydd eraill. Mae cyflwyniad ysgrifenedig y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor, er enghraifft, yn nodi'r manteision posibl o ran datblygu polisi ar gyfer pysgodfeydd, iechyd planhigion a biotechnoleg ac o ran hybu datblygu gwledig trwy gyrff gwirfoddol. Mae'r Cynulliad fel cyfangorff wedi datgan yn glir ei fod yn dymuno cael pwerau deddfwriaethol sylfaenol mewn perthynas â hela.

**Gweinidogion y Cynulliad fel aelodau o bwyllgorau pwnc**

6. Yr ail fater y mae'r Pwyllgor yn dymuno tynnu sylw'r Comisiwn ato yw bod Deddf Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion fod yn aelodau o bwyllgorau pwnc. Rydym o'r farn fod hyn yn cael effaith negyddol ar allu'r pwyllgorau i graffu'n briodol ar yr hyn y mae'r Gweinidogion yn ei wneud.

7. Roedd y gofyniad sydd wedi'i ymgorffori yn y Ddeddf yn ehangu'r cysyniad o'r Cynulliad fel un corff corfforaethol mewn ffordd resymegol. Ond ar ôl i'r llywodraeth ffurfio clymblaid fwyafrifol ac yn sgil penderfyniad y Cynulliad ar 14 Chwefror 2002 ynghylch sicrhau'r ' rhaniad cliriaf posibl a ganiateir gan y ddeddfwriaeth bresennol rhwng y Llywodraeth a'r Cynulliad', gellir gweld bellach y gwendidau sydd yn rhan annatod o'r trefniant.

8. Yn benodol, rydym o'r farn fod aelodaeth Gweinidogion o bwyllgorau pwnc yn cyfyngu ar allu'r pwyllgorau i graffu ar y Gweinidogion yn effeithiol. Yn benodol:

- mae'r rheolaeth sydd gan y Gweinidog dros y sesiwn briffio y mae ei swyddogion yn ei gynnal gyda'r pwyllgor a'r ffaith fod y deunydd briffio'n cael ei rannu ymhlith holl aelodau'r pwyllgor (gan gynnwys y Gweinidog) yn rhoi mantais i'r Gweinidog pan fydd yn paratoi i gymryd rhan yn y pwyllgor;
- mae presenoldeb parhaol y Gweinidogion yn effeithio ar gymeriad a deinameg y gwaith pwyllgor yn y Cynulliad. Rydym o'r farn fod aelodaeth y Gweinidogion yn pwysleisio'r teyrngarwch dealladwy sydd gan rai Aelodau i'w plaid ac sy'n cael ei amlygu mewn pwyllgorau pan fyddant yn ymlynu'n gadarn wrth safbwynt eu plaid. O'r herwydd, mae'n fwy tebygol y bydd Aelodau sy'n perthyn i blaid y Llywodraeth yn amddiffyn y Gweinidogion mewn pwyllgor yn hytrach na bod yn rhan o grwp sy'n craffu arnynt.

9. Teimlwn y byddai dileu aelodaeth awtomatig y Gweinidogion ar bwyllgorau pwnc yn newid cymeriad

cyfarfodydd y pwyllgorau hyn ac yn annog aelodau'r pwyllgor i gydweithio fel tîm pan fyddant yn craffu ar Weinidogion. Byddai hefyd yn caniatáu i'r pwyllgorau baratoi cwestiynau a llunio amcanion y cytunwyd arnynt heb eu rhannu gyda'r Gweinidogion a'r swyddogion ymlaen llaw. Er mwyn rhoi system o'r fath ar waith yn effeithiol, rydym o'r farn y byddai angen ei chefnogi drwy roi'r pwer i'r pwyllgor fynnu bod y Gweinidog yn dod i'r cyfarfod a chod y cytunwyd arno i rwystro aelodau'r pwyllgorau rhag rhoi gwybodaeth i Weinidogion cyn y cyfarfodydd pwyllgor.

10. Byddai trefnu na all Gweinidogion fod yn aelodau o'r pwyllgorau yn cael effaith yn ei thro ar lwyth gwaith Aelodau eraill pe byddai'n rhaid cadw'r cydbwysedd o ran pleidiau yn ôl y gofyniad presennol. O'r herwydd, rydym yn awgrymu y dylid cynyddu nifer aelodau'r Cynulliad(o 60 i ??). Byddai hyn hefyd yn caniatáu i Aelodau unigol ganolbwyntio ar feysydd pwnc penodol a magu mwy o arbenigedd ynddynt. Law yn llaw â diffiniad cliriach o'r rhaniad rhwng canghennau gweithredol a ddeddfwriaethol y Cynulliad, byddai cynyddu nifer aelodau'r Cynulliad yn helpu i roi mwy o bellter rhwng Aelodau cyffredin unigol â'r Gweinidogion. Byddai hyn felly yn cyfrannu at ddatblygu gwaith y pwyllgorau o ran craffu ar Weinidogion yn effeithiol.

11. Mae'n bosibl hefyd y gallai fod gwrthdaro rhwng cynghorwyr arbenigol sy'n cael eu penodi gan y Pwyllgorau. Dim ond un cynghorydd o'r fath sydd wedi'i benodi gan y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ac roedd ei ymddygiad yn briodol a phroffesiynol ym mhob cyfarfod pwyllgor. Serch hynny, mae'n bosibl, yn ddamcaniaethol, o leiaf, y gallai Gweinidogion ddylanwadu'n amhriodol ar gynghorwyr o'r fath. Efallai hefyd, yn rhinwedd y ffaith bod Gweinidogion yn aelodau o'r pwyllgor, gallai'r cynghorwyr hyn deimlo'n ansicr ynghylch pwy y maent yn gweithio iddo.

**I gloi**

12. Hyderwn y bydd y cyflwyniad hwn o ddefnydd i'r Comisiwn.